

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

Yr Wmp o Blwmp



Pennod 1


Dim gair

Efeilliaid oedd Defi a Dewi. Roedden nhw'n edrych yn union yr un peth. Roedden nhw hefyd yn meddwl am yr un pethau ar yr un pryd. Roedd hynny'n beth da, achos roedd Dewi a Defi wedi stopio siarad. Ers pythefnos.





Chwarae gêm peidio siarad oedd y ddau.
Ond doedd neb arall yn gwybod hynny.



Roedd eu mam a'u tad – Gina a Geth –
yn poeni'n ofnadwy amdanyn nhw.




Roedd Geth hyd yn oed wedi mynd â Defi a Dewi at y meddyg. Roedd honno wedi syllu'n fanwl i mewn i'w clustiau a'u cegau, a gofyn iddyn nhw ddweud 'Aaaaaa' (tasg anodd i ddau nad oedd yn siarad!).



Aaaaaa






Dywedodd y meddyg yn blwmp ac yn blaen nad oedd dim byd yn bod ar yr efeilliaid.

‘Byddan nhw’n siarad eto chwap,’ meddai.

Ar eu ffordd allan o'r feddygfa, pwy
welodd Defi a Dewi ond Aled Jenkins, neu
Aled Pengaled, bwli Blwyddyn 6. Syllodd
Aled Pengaled ar y ddau gan wneud llygaid
tro arnyn nhw. Yna dechreuodd chwynu
a gwneud ystumiau od.





Dychmygodd Defi a Dewi yr un peth ar yr un pryd, sef bod Aled Pengaled yn esgus gafael ym mraich un ohonyn nhw, gan ei throi a'i thorri yn ei hanner! Felly, dyma'r ddau'n dilyn eu tad at ddrws y feddygfa mor gyflym â dau geffyl rasio!

Pennod 2

Diflas, diflas, diflas!

Pan gyrhaeddon nhw adre, roedd Gina, mam Defi a Dewi, wrthi'n paratoi swper – pasta a saws tomato.





‘Beth ddwedodd y meddyg ’te?’ gofynnodd Gina. Cododd Defi a Dewi eu hysgwyddau heb ddweud gair. ‘Edrychodd hi yn eich clustiau chi?’ Nodiodd yr efeilliaid eu pennau. ‘A’ch llwnc chi?’ Nodio eto. ‘Ofynnodd hi pam nad ydych chi’n siarad?’ Yr un ymateb.

‘Does dim byd yn bod arnyn nhw, yn ôl y meddyg, ac fe fyddan nhw’n siarad eto chwap!’ esboniodd Geth.

‘Defi? Dewi? Sdim byd *yn bod*, oes e? Allwch chi ddweud wrth Dad a fi . . .’

Siglodd y bechgyn eu pennau.





'Pam nad ydych chi'n siarad 'te?' Cododd y bechgyn eu hysgwyddau eto. Dechreuodd Gina droi cynnwys y sosban yn ffyrnig.


'Reit. Swper. 'Molchi. Wedyn gwely.'



Bwytaodd pawb eu swper mewn tawelwch.
Roedd hyd yn oed Twba, y gath, wedi sylwi
bod rhywbeth yn bod. Trodd hi ar ei sawdl a
phit-phatian allan i'r ardd.



“Molchi. Wedyn gwely,’ meddai Geth wrth Defi a Dewi ar ôl iddyn nhw lyncu’r darn olaf o basta. ‘Neu fe fyddwch chi wedi blino gormod cyn y gêm bêl-droed fawr nos fory.’



Gwely? Am chwech o’r gloch?! Diflas! Mwy diflas na wynebu Aled Pengaled, hyd yn oed, meddyliodd y ddau. Wel . . . na . . . efallai ddim mor ddiflas â hynny, ond diflas, diflas, diflas.

Ond i fyny â’r ddau i’r llofft.

Hyd yn oed ar ôl cau'r llenni, roedd eu stafell yn dal yn llawn golau dydd. *Mae'n rhy olau i fynd i gysgu.* Edrychodd y ddau ar ei gilydd. *Mae'n rhy olau i fynd i'r gwely,* meddyliodd Defi. *Ond mae'n dywyll o dan y gwely,* meddyliodd Dewi! Gwenodd Defi a Dewi ar ei gilydd.



Pennod 3

O dan y gwely

Roedd hi'n dywyll fel bola buwch o dan y gwely. *Fflachlamp* fyddai'n syniad da, meddyliodd Defi. *Fflachlamp*, meddyliodd Dewi. Yna'n sydyn, digwyddodd y peth rhyfeddaf.



‘Shwmai ’te?’ meddai llais. Am eiliad,
meddyliodd Defi fod Dewi wedi difetha’r
gêm peidio siarad, a meddyliodd Dewi mai
Defi oedd wedi gwneud.





‘Chi’n iawn ’te, bois?’ gofynnodd y llais
eto. Nid llais Dewi oedd e, na llais Defi.
Trodd y ddau i edrych ar ei gilydd, a dyna
pryd y gwelson nhw fe. Creadur bach blewog,
crwn fel pêl â dau lygad mawr brown a gwên
lyddan ar ei wyneb blewog.
Roedd e’n edrych fel pêl-droed
â gwallt hir, cyrliog, gwyllt.
Roedd ganddo ddwy droed
a dwy fraich a dwy law.





‘Dydych chi ddim yn dweud llawer, ydych chi?’ meddai’r creadur bach. ‘Dwi’n hoffi gwneud ffrindiau newydd . . . yn enwedig os ydyn nhw’n siarad!’

Anghofiodd Defi a Dewi am eu gêm ar unwaith a dechrau holi.

‘P . . . pwy wyt ti?’ gofynnon nhw.

‘Yr Wmp,’ atebodd y creadur bach.

‘Yr Wmp o Blwmp.’

‘Plwmp?’ Roedd llygaid Defi a Dewi fel soseri.

‘Ie,’ meddai’r Wmp o Blwmp. ‘Dwi wedi dod ar fy ngwyliau i’ch tŷ chi, am newid bach.’ Rhwbiodd yr efeilliaid eu llygaid ac edrych yn syn eto ar y creadur.



‘Oes cwstard gyda chi?’ gofynnodd yn sydyn.

‘Beth?’

‘Cwstard. Dwi bron â llwgu. Cwstard yw fy hoff fwyd i.’



Meddyliodd Defi a Dewi yr un peth ar yr un pryd. Rhaid i ni ddweud wrth Mam a Dad am Yr Wmp o Blwmp.

‘Fyddwn ni ’nôl nawr,’ meddai Defi wrth
Yr Wmp o Blwmp.

‘Rydyn ni’n mynd i nôl cwstard i ti,’
meddai Dewi.



Cripiodd y ddau i lawr y grisiau'n dawel bach. Roedd Mam a Dad yn y lolfa – Mam yn brysur ar y cyfrifiadur, a Dad yn gwneud pos swdocw.

‘Mam! Dad! Mae rhywbeth o dan ein gwely!’ meddai'r ddau gyda'i gilydd.





Stopiodd y tip-tapian ar y cyfrifiadur.
Stopiodd Geth wneud y swdocw. Edrychodd
Gina a Geth ar ei gilydd, yna ar Defi a Dewi.
‘O’r diwedd!’ meddai Gina.
‘Diolch byth!’ meddai Geth.

Pennod 4

Cwmni bach newydd

‘Mae rhywbeth o dan y gwely, Dad!’

‘Yr Wmp . . .’

‘. . . O Blwmp!’

Roedd Gina a Geth wrth eu bodd fod Defi a Dewi’n siarad unwaith eto.





Dywedodd yr efeilliaid wrthyn nhw mai gêm oedd peidio siarad. Doedd dim byd yn eu poeni nhw – heblaw efallai Aled Pengaled, bwli Blwyddyn 6.

Erbyn hynny, roedd Yr Wmp o Blwmp wedi dod allan o dan y gwely. Aeth i lawr y grisiau, i'r gegin, ac yna i'r lolfa gan eistedd ar y sofffa i fwyta iogwrt roedd wedi'i gymryd o'r oergell. *Iym!* meddylodd.





*Dyw e ddim fel cwstard, ond mae e'n flasus
iawn! Iym-iym! Llyfodd y tu mewn i'r
potyn gan ymestyn ei dafod i'r gwaelod.
'Iym-iym-iym.' Yn sydyn, sylweddolodd
Yr Wmp o Blwmp fod ei drwyn yn sownd
yn y potyn iogwrt.*

‘Aw-aw-awtsh!’ meddai gan drio tynnu’i
drwyn allan o’r potyn. ‘O-o-o-WWWWW!’

Stopiodd y teulu siarad yn sydyn.
Edrychodd pawb i gyfeiriad y sofffa.





‘B . . . beth yw’r bêl-droed flewog ’na . . .
â dau lygad . . . sy’n eistedd ar fy sofffa i . . .
ac yn *siarad*?’ holodd Geth.

‘Beth ar wyneb y ddaear . . ?’ holodd
Gina.

Aeth Defi a Dewi i helpu’r Wmp i dynnu’r
potyn oddi ar ei drwyn.



‘OWWWW! Diolch yn fawr!’ meddai wrth weld Gina a Geth yn syllu arno.

‘Shwmai ’te? Mae tŷ braf iawn ’da chi fan hyn. Oedd e’n ddrud?’

Triodd Geth siarad, ond ddaeth dim smic o sŵn o’i ben.

'Oes cwstard 'da chi, os gwelwch yn dda?'
gofynnodd Yr Wmp o Blwmp i Gina.

'Ym, beth . . . pwy wyt ti?'

'Fi yw Yr Wmp o Blwmp, a dwi wedi dod
yma ar fy ngwyliau!'





Doedd Geth a Gina ddim yn siŵr ai breuddwydio oedden nhw ai peidio. Erbyn hyn, roedd yr Wmp o Blwmp wedi gorffen gêm swdocw Geth, wedi ffeindio'r peiriant Wii, ac yn paratoi i chwarae tennis.



Am hanner awr wedi wyth, penderfynodd
Gina ei bod yn hen bryd i bawb fynd i
gysgu. Cafodd Yr Wmp o Blwmp rannu
basged gyda Twba'r gath.





‘Go dda!’ meddai’r Wmp o Blwmp. ‘Byddi di a fi’n fêts whap, Ffatso!’ Roedd wyneb Twba’n dweud y cyfan. ‘Twba, nid Ffatso!’ cywirodd Defi a Dewi ef gan chwerthin.

'Nos da, Yr Wmp o Blwmp!' meddai'r
efeilliaid yr union 'run pryd.

'Nos da, bois bach!' meddai'r Wmp o
Blwmp, gan ddechrau chwynu'n braf bron
yn syth.



Pennod 5

Pawb ar ras

Y bore wedyn, roedd pawb wedi codi'n hwyr ac yn rhuthro o gwmpas y tŷ yn pacio bagiau, llwytho'r peiriant golchi, llosgi'r tost a gorffen gwaith cartref. Wrth fynd allan drwy'r drws, cofiodd Defi a Dewi, ar yr un pryd, fod angen eu dillad pêl-droed arnyn nhw. Daeth Yr Wmp o Blwmp i helpu.





A dweud y gwir, Yr Wmp o Blwmp ddaeth o hyd i'r sgidiau pêl-droed a'u rhoi ym mag yr efeilliaid. Roedd hynny'n dipyn o gamp, gan fod Yr Wmp o Blwmp yn fach a'r sgidiau pêl-droed a'r bag yn fawr . . .



. . . mor fawr, yn wir, nes i'r Wmp o
Blwmp gwympo i mewn i'r bag! Cyn iddo
gael cyfle i ddod allan, roedd Geth wedi
cydio yn y bag, cau'r sip a dweud wrth bawb
am frysio i'r car.





‘Beth am Yr Wmp o Blwmp?’ holodd Defi a Dewi.

‘Gawn ni drafod hwnnw heno,’ atebodd Mam. Ac mewn chwinciad chwannen, roedd y drws wedi’i gau’n glep a’i gloi. Edrychodd Twba o’i gwmpas yn syn. *Aaa! Tawelwch o’r diwedd, meddylodd, hwrê!*

Roedd pawb yn yr ysgol yn gyffro i gyd yn meddwl am y gêm bêl-droed. Roedd un o chwaraewyr gorau tîm pêl-droed Cymru, Gary Hay, am gyflwyno pêl-droed arbennig i'r ysgol cyn y gêm. Pêl-droed ddu oedd hi, a'i lofnod arni mewn aur.





Roedd y stafell newid yn llawn sŵn a
bwrlwm. Wrth i Defi a Dewi wisgo'u crysau,
pwyl ddaeth i mewn ond Aled Pengaled.
Gwthiodd heibio nes bod y ddau efaill yn
bwrw'u pennau yn erbyn y wal. Chwarddodd
Aled yn gas.



Daeth Mr Leyshon, yr hyfforddwr, i'r stafell newid i annog pawb i frysio i'r cae gan fod Gary Hay yn aros amdanyn nhw. O dan ei gesail, roedd y bêl-droed ddu. Yn sydyn, canodd ei ffôn boced. 'Arhoswch funud, bydd raid i fi fynd tu allan,' gwaeddodd i mewn i'r ffôn. Ac allan ag e gan adael y bêl ar y fainc.

Defi a Dewi oedd y rhai olaf i adael
y stafell newid. Wrth fynd drwy'r drws,
edrychodd y ddau yn ôl gan feddwl eu bod
wedi gweld rhyw gysgod. Ond anghofiodd
y ddau am hynny wrth redeg allan i ganol
y cyffro.



Welodd neb mo'r bwli yn rhoi'r bêl ddu
â'r sgrifen aur arni ym mag yr efeilliaid.




Neb heblaw . . . pwy, tybed?

Pennod 6

Y gêm fawr

Roedd y tîm yn barod, roedd Gary Hay yn barod ac roedd y rhieni'n barod. Aeth Mr Leyshon i nôl y bêl o'r stafell newid, ond ymhen munud neu ddau, rhuthrodd allan eto a'i wyneb yn wyn fel y galchen.



‘Mae’r bêl . . . ar goll,’ meddai. ‘Mae pêl Gary Hay wedi diflannu!’ Bu tawelwch am funud cyn i’r stori fynd ar led bod rhywun wedi dwyn y bêl ddu arbennig. Yn sydyn, dyma Aled Pengaled yn gweiddi:





‘Syr! Syr! Dwi’n gwybod pwy sy wedi dwyn y bêl . . .’ Aeth pobman yn ddistaw eto. ‘Welais i nhw, syr!’

Rhedodd Aled i’r stafell newid. Mewn chwinciad, daeth allan yn cario bag glas – bag Defi a Dewi.



‘Welais i nhw, syr . . . yr efeilliaid . . . yn dwyn y bêl a’i rhoi hi yn y bag yma!’ Roedd Defi a Dewi’n teimlo’n sâl. Roedd Geth a Gina yng nghanol y dorf o rieni, hefyd yn teimlo’n sâl. Ond roedd Aled Pengaled yn mwynhau pob eiliad.

Agorodd Aled Pengaled sip y bag yn araf bach. Edrychodd ar Defi a Dewi gan wenu'n slei wrth iddo godi'r bêl allan o'r bag. (Neu dyna beth oedd e'n feddwl roedd e'n ei chodi!) Cododd y bêl yn uchel, er mwyn i bawb gael ei gweld.



Ond yn sydyn, gwelodd Aled ddau lygad
yn syllu arno. Yna clywodd y geiriau:
'Olreit, byti-boi? Bachan, bachan! Rwyt ti
wedi gwneud cawdel o bethe nawr!'





Sgrechiodd Aled Pengaled – nid sgrech
fawr ddewr oedd hi, ond sgrech fain fel cath
a'i chwt ar dân. Rhedodd nerth ei draed
o'r cae.

Pennod 7

Llygad barcud


Wedi i'r halibalw dawelu, daeth Mr Leyshon o hyd i'r bêl go iawn ym mag neb llai nag Aled Pengaled. Sylweddolodd Mr Leyshon mai hen fwli mawr oedd Aled. Addawodd y byddai'n cadw llygad barcud arno o hyn ymlaen.





Daeth Yr Wmp o Blwmp yn enwog ar
unwaith. Roedd pawb am gael tynnu eu
lluniau gyda'r creadur bach rhyfedd. Hyd
yn oed Gary Hay!

Ar y ffordd adref ar ôl y gêm, eglurodd
Yr Wmp o Blwmp sut y disgynnodd i mewn
i fag yr efeilliaid y bore hwnnw a sut oedd e
wedi gweld Aled yn rhoi'r bêl-droed arbennig
yn y bag.






Esboniodd wedyn sut y llwyddodd i
wthio'r bêl allan o'r bag a'i rhoi ym mag y
bwli, er mwyn dysgu gwers iddo. 'Rwyf ti'n
arwr!' meddai Gina wrtho. Cytunodd pawb.

Cytunodd Yr Wmp o Blwmp hefyd.

‘Odw, odw, dwi’n arwr, diolch yn fawr!
Nawr ’te, oes cwstard i’w gael yma’n
rhywle?’





Stopiodd y teulu yng nghaffi'r Sosban Saim ar y ffordd adref. Cafodd y plant a'u rhieni blatiad yr un o sglodion a physgod i ddathlu. A beth, tybed, gafodd Yr Wmp o Blwmp? Wel, llond bowlen o gwstard, wrth gwrs!

SOSBAN SAIN
CYFSGOD & SO
ch-ch-ch-ch



Roedd bola Yr Wmp o Blwmp mor llawn
nes iddo chwyrnu cysgu drwy'r nos. Dyma'r
gwylliau gorau roedd e wedi'i gael erioed!